



Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol



Cais am Fewnbwn - Cynllun Gwaith 2023 i 2024 y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

Mae'r Cais am Fewnbwn hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddarparu eu barn am faterion y dylai'r DRCF eu hystyried wrth iddo ddatblygu ei gynllun gwaith ar gyfer 2023 i 2024.

1. Cyflwyniad

Daw'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) â phedwar rheoleiddiwr yn y DU (CMA, Ofcom, ICO a'r FCA) ynghyd i ddarparu ymagwedd gydlynus at reoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein.¹ Ffurfiwyd y DRCF gan fod rheoleiddio cydgysylltiedig effeithlon yn allweddol wrth ymdrin â'r heriau cymhleth a gyflwynir gan wasanaethau a thechnolegau digidol. Mae'r rôl hon yn bwysicach fyth mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd i ddefnyddwyr a'r diwydiant ill dau, a'n nod yw darparu mwy o eglurder a chysondeb iddynt.

Mae rheoleiddio digidol yn faes sy'n esblygu'n gyflym. Mae'r model DRCF yn hyrwyddo cydlynid rhwng cyfundrefnau rheoleiddio sy'n cwmpasu sawl sector ar draws yr economi. Gyda'n gilydd, mae gennym ni, yr aelod-reoleiddwyr, gyfrifoldeb sylweddol - nawr ac yn y dyfodol - dros reoleiddio digidol yn y DU. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, bydd pasio a gweithredu deddfwriaeth Seneddol newydd, gan gynnwys y Mesur Diogelwch Ar-lein a'r Mesur Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn ogystal â diwygio gwasanaethau ariannol pellach, i gyd yn dylanwadu ar gyfeiriad y DRCF, ei flaenoriaethau a sut mae'n gweithredu.

2. Nodau'r DRCF

Nodau trosgynnol y DRCF yw hyrwyddo:

- **Cydlynid rhwng cyfundrefnau** – o ystyried y rhyngweithio a'r tensiynau posib rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i roi eglurder a chysondeb i bobl a busnesau sy'n defnyddio gwasanaethau digidol. Gall ein gwaith cydlynu hefyd nodi'r ffyrdd y gall gweithio ar y cyd helpu ein hamcanion unigol i weithio mewn cytgorf.
- **Cydweithrediad ar brosiectau** – ceir budd sylweddol wrth i ni ddod at ein gilydd i ymdrin â phroblemau cymhleth mewn meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin. Er bod angen i bob un ohonom ddelio â materion a gwneud penderfyniadau mewn ffordd benodol er mwyn cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, mae gennym gyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni nodau a rennir. Bydd gwneud hyn yn caniatáu i ni weithio'n fwy effeithlon, osgoi dyblygu ymdrechion, datblygu ymagweddau a rennir a chyflwyno arweiniad ar y cyd i'r diwydiant lle bo hynny'n briodol.
- **Adeiladu gallu ar draws y rheoleiddwyr** – drwy weithio ar y cyd, gallwn ddatblygu a chadw'r sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a gallu sefydliadol cywir yn fwy effeithlon er mwyn cyflwyno rheoleiddio digidol effeithiol i bobl a busnesau.

3. Cynllun Gwaith 2022/23

Ym mis Ebrill 2022, bu i ni gyhoeddi ein cynllun gwaith² ar gyfer 2022 i 2023. Disgrifiodd y cynllun hwn sut mae'r aelod-reoleiddwyr yn bwriadu ymdrin â meysydd a rennir o reoleiddio digidol drwy DRCF dros y 12 mis nesaf. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni holl ymrwymadau ein cynllun gwaith.

¹ Gellir darllen ein Cylch Gorchwyl yma: [DRCF: Cylch Gorchwyl - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/digital-regulation-coordination)

² [Cynllun Gwaith y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol 2022 i 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/digital-regulation-coordination)

<p>Cydlyniaid</p>	<p>Diogelu plant ar-lein: Rydym eisiau cydamseru ein hymdrechion - gyda ffocws penodol ar wella canlyniadau i blant a rhieni - drwy sicrhau bod mesurau diogelu preifatrwydd a diogelwch ar-lein yn gweithio mewn cytgord. Mae hyn yn cynnwys datblygu fframwaith gweithio ar y cyd i gefnogi goruchwylio fframwaith rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom a chyfundrefn Cod Dylunio Priodol i Oedran (AADC) yr ICO, yn ogystal â chyhoeddi ymchwil ar y cyd ar sicrwydd oedran.</p>
	<p>Hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebu ar-lein: Trwy'r DRCF rydym am feithrin marchnadoedd hysbysebu ar-lein cystadleuol sy'n cyflwyno arloesedd a thwf economaidd, ar yr un pryd â pharchu hawliau defnyddwyr a diogelu data. Mae'r CMA ac ICO wedi bod yn gweithio ar y cyd ar weithrediad Google o'i gynigion datblygol i ddileu cwcis trydydd parti; a nodweddion Tracio Tryloywder Apiau a nodweddion Atal Tracio Deallus Apple.</p>
	<p>Rydym hefyd yn cynnal gwaith pellach i sicrhau ymagwedd gydlynus ar draws ein cyfundrefnau. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mapio rhyngweithio rhwng cyfundrefnau rheoleiddio perthnasol; • cyhoeddi barn a rennir y CMA ac Ofcom ar y rhyngweithio rhwng cystadleuaeth a pholisi diogelwch ar-lein; • cyhoeddi datganiad ar sut rydym yn bwriadu cydweithio i ymdrin â meysydd o rhyngweithio rhwng y cyfundrefnau diogelwch ar-lein a phreifatrwydd; • parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o amgryptio o un pen i'r llall ar ôl cynnal bord gron lwyddiannus yn gynharach eleni; ac • adeiladu ar ymgysylltu rhwng Ofcom a FCA ar dwyll a sgamiau ar-lein
<p>Gweithio ar y cyd</p>	<p>Cefnogi gwelliannau mewn tryloywder algorithmig: Rydym am gefnogi'r defnydd o brosesu algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo ei fuddion ac yn lliniaru risgiau i bobl a chystadleuaeth. Mae tryloywder yn allweddol i hyn. Mae'r llif gwaith hwn yn ymchwilio i ffyrdd o wella tryloywder ac archwilio algorithmig a'i nod yw gwella ein galluoedd mewn archwilio algorithmig, ymchwilio i'r farchnad archwilio trydydd parti a hyrwyddo tryloywder mewn caffael algorithmig.</p>
	<p>Galluogi arloesi yn y diwydiannau rydym yn rheoleiddio: O dan y llif gwaith hwn mae aelodau o DRCF yn cydweithio ar brosiectau a gwasanaethau i gefnogi arloesedd cyfrifol, er mwyn darparu mwy o sicrwydd rheoleiddiol i arloeswyr. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r diwydiant a gweithio ar asesu a ddylid cyflwyno gwasanaeth cyngor aml-asiantaeth ar gyfer arloeswyr digidol, gan y bydd cynnig cyngor rheoleiddio cydgysylltiedig yn lleihau baich a chymhlethdod i fusnesau sy'n delio â chylchoedd gwaith rheoleiddio lluosog. Byddwn ni'n cynnal ymchwil archwiliol ac yn peilota gwasanaeth a ddylunnir i ystyried barn, anghenion ac arferion gweithio arloeswyr ar draws yr economi ddigidol. Caiff y gwaith hwn ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Rheoleiddwyr Arloesi BEIS.³</p>
<p>Gallu</p>	<p>Gwella rhannu gwybodaeth drwy rwydweithiau arbenigol: Mae hyn yn cynnwys cefnogi cysylltiadau rhwng arbenigwyr yn ein sefydliadau i ysgogi cydweithio parhaus ar feysydd polisi a rennir. Er enghraifft, rydym wedi creu rhwydwaith i ddod ynghyd ar y defnydd o dechnolegau rheoleiddio (RegTech) a thechnolegau goruchwylio (SupTech).</p>

³ Bu'r prosiect hwn yn bosib o ganlyniad i grant o £12 miliwn gan y [Gronfa Rheoleiddwyr Arloesi](#) a lanswyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae'r gronfa'n galluogi rheoleiddwyr y DU ac awdurdodau lleol i helpu i greu amgylchedd rheoleiddio yn y DU sy'n datgloi arloesedd ac yn golygu mai'r DU yw'r lle gorau i ddechrau a thyfu busnes.

	<p>Adeiladu ar synergeddau a phontio bylchau yn ein gweithgarwch sganio gorwelion: Mae hyn yn adeiladu hyn ar raglenni sganio gorwelion parhaus ar draws y rheoleiddwyr. Nod y gwaith sganio hwn yw ein helpu i ddatblygu gwybodaeth am feysydd lle mae arloesi'n digwydd ar garlam a dod ynghyd i ymgysylltu drwy ddigwyddiadau allanol. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau eisoes eleni (megis ein symposia am y Bydysawd Meta a Web.30), ac yn parhau i weithio ar y cyd i nodi a phontio bylchau a chynnig mewnwelediadau cyhoeddus ar y cyd i dechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau technoleg yn well ar gyfer cynlluniau gwaith DRCF yn y dyfodol. Rydym hefyd yn sicrhau bod ymchwil ar reoleiddio digidol ar gael yn eang i bawb trwy ein porth ymchwil.</p>
	<p>Recriwtio a chadw doniau arbenigol ar draws pob un o'r 4 rheoleiddiwr: Er gwaethaf ein gwahanol rolau rheoleiddio, mae angen sgiliau ac arbenigedd cyffredin arnom. Mae'r llif gwaith hwn yn cefnogi'r rheoleiddwyr i ddenu, adeiladu a chadw'r sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau digidol nawr ac yn y dyfodol.</p>

4. Pennu ein cyfeiriad ar gyfer y flwyddyn nesaf

Ar hyn o bryd rydym yn pennu cwmpas sut y gall y DRCF adeiladu ar y cynllun gwaith presennol hwn. Yn union fel yr oedd ein cynllun gwaith 2022/23 yn gam ymlaen o'n cynllun cyntaf o ran uchelgais a chwmpas, ein bwriad yw datblygu rhaglen waith ar gyfer 2023/24 sy'n adeiladu ymhellach ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, a nodi meysydd newydd lle y byddai budd o ganlyniad i'r DRCF gydlynu rhagor o waith.

Bydd ein gwaith yn cael ei fframio gan ein nodau trosgynnol o **gydlynu, cydweithio ac adeiladu gallu**. Rhagwelir y bydd llawer o'r prosiectau dwyochrog a nodir yn ein cynllun gwaith 2022/23 yn digwydd dros sawl blwyddyn ac felly byddant yn symud i gamau newydd yng ngoleuni'r cyd-destun technolegol a deddfwriaethol sy'n newid. Er enghraifft, mae'r posibilrwydd o weithredu cyfundrefnau deddfwriaethol newydd yn ystod cyfnod 2023/24 yn golygu y gallai aelodau o DRCF fod mewn cyfnod mwy gweithredol, gan amlygu mwy o angen nag erioed am ein gwaith cydlynu. Felly, gallai ein prosiectau dwyochrog ar rhyng-gysylltedd materion megis diogelwch ar-lein, cystadleuaeth a diogelu data gynnwys mwy o ffocws ar brosesau gwaith a materion gweithredu e.e. drwy ddatblygu codau ymarfer.

Bydd prosiectau lle rydym wedi sefydlu timau gweithio ar y cyd ar draws y pedwar rheoleiddiwr hefyd yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglenni sganio gorwelion, lle byddwn yn adeiladu ein gallu ymhellach i nodi materion rheoleiddio sy'n deillio o dechnolegau datblygol yn rhagweithiol. Bydd ein prosiect ar dryloywder algorithmig yn archwilio'r cyfleoedd am archwilio algorithmig trydydd parti. Byddwn ni'n parhau i annog arloesedd cyfrifol, gan gynnwys drwy archwilio a threalu'r potensial i dargedu cymorth ymarferol at arloeswyr.

Ffactorau rydyn ni'n eu hystyried wrth flaenoriaethu gwaith

Rydym hefyd yn ystyried yr achos dros feysydd eraill lle gallai cydweithio rhwng aelodau o DRCF fod o fudd, ac ar yr un pryd cydnabod yr angen am fod yn effeithlon ac yn gymesur o ran y maint o waith. Wrth feddwl am hyn, rhaid i ni ystyried gallu pob rheoleiddiwr i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith pellach ochr yn ochr â ffactorau eraill gan gynnwys:

A yw'n gweddu i nodau'r DRCF - hyrwyddo cydlynu, cydweithio a gallu (fel a amlinellir uchod)?

A yw'n faes lle gall y DRCF ychwanegu gwerth ochr yn ochr â gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan yr aelod-reoleiddwyr?

A yw'n gwneud synnwyr i ymchwilio ymhellach i'r maes hwn ar sail y dirwedd ddeddfwriaethol, economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol bresennol?

A oes unrhyw reoleiddwyr a/neu sefydliadau eraill y dylem gydweithio â nhw ar y gwaith hwn?

A yw'n faes lle gall y DRCF gael effaith bwrpasol?

5. Cais am Fewnbwn

Mae'r Cais am Fewnbwn hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddarparu eu barn am faterion y dylai'r DRCF eu hystyried wrth iddo ddatblygu ei gynllun gwaith ar gyfer 2023 i 2024. Saif ochr yn ochr â'n hymgysylltiad parhaus a rheolaidd â rhanddeiliaid allanol gan gynnwys diwydiant, Llywodraeth a Senedd y DU, cyrff rheoleiddio eraill a phartneriaid rhyngwladol.

Rydym yn ceisio barn ar sut y gall y DRCF fel corff cydlynu ddod â'i aelodau at ei gilydd er budd pobl a busnesau ar-lein. Mae gennym ddi-ddordeb penodol yn eich barn ar y cwestiynau canlynol:

- 1. A oes rhyngweithio o ran polisi neu dechnolegau yr hoffech i'r DRCF eu hystyried wrth iddo ddatblygu ei gynllun gwaith ar gyfer 2023/24? Pam mae'r rhain yn bwysig? Amlinellwch feysydd sy'n ymdrin ag o leiaf dau o gyfchoedd gwaith aelod-reoleiddwyr y DRCF.**
- 2. Yn unol â'r 'ffactorau rydyn ni'n eu hystyried wrth flaenoriaethu gwaith' (gweler uchod), a oes unrhyw feysydd o ffocws rydych chi'n credu sy'n cydweddu â'r rhain nad ymdriniwyd â hwy yn ein cynllun gwaith blaenorol?**
- 3. A oes unrhyw grwpiau rhanddeiliaid penodol (e.e. defnyddwyr terfynol megis defnyddwyr agored i niwed, plant, busnesau) yr ydych yn credu y dylai'r DRCF eu cadw mewn cof yn benodol wrth flaenoriaethu meysydd ffocws ar gyfer y DRCF?**

Mae pob aelod-reoleiddwr o DRCF yn ymgynghori ar wahân ar eu cynllun gwaith eu hunain yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol priodol eu hunain, yn aml trwy ymgynghoriad statudol. Ni ddylid ystyried bod yr ymatebion i'r Cais am Fewnbwn anffurfiol hwn yn ymatebion i'r ymgynghoriadau statudol hynny.

Nid yw'r DRCF yn endid cyfreithiol annibynnol ac, er mwyn osgoi amheuaeth, dylid trin gwybodaeth a gyflwynir wrth ymateb i'r Cais am Fewnbwn hwn fel gwybodaeth a gyflwynir i bob aelod o DRCF (CMA, Ofcom, ICO a FCA).

6. Y camau nesaf

Rydym yn gwahodd barn rhanddeiliaid ar y cwestiynau uchod erbyn **6 Ionawr 2023 fan hwyraf**. Cyflwynwch eich ymatebion i DRCF@ofcom.org.uk

Rydym yn disgwyl cyhoeddi cyflwyniadau o dan y Cais am Fewnbwn hwn ochr yn ochr â chyhoeddi ein cynllun gwaith ar gyfer 2023 i 2024. Marciwch unrhyw ymatebion neu adrannau o'ch ymateb yr hoffech iddynt aros yn gyfrinachol yn glir.⁴⁵⁶⁷

⁴ Hysbysiad preifatrwydd FCA: <https://www.fca.org.uk/privacy>

⁵ Hysbysiad preifatrwydd Ofcom: [Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol - Sut rydym yn trin eich data personol - Ofcom](#)

⁶ Hysbysiad preifatrwydd CMA: [Siarter gwybodaeth bersonol - Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

⁷ Hysbysiad preifatrwydd ICO [Hysbysiad preifatrwydd ICO | .ICO](#)